



Carys Edwards
Pennaeth Proffesiwn, Adnoddau Dynol
Cyngor Sir Ynys Môn

CarysEdwards@ynysmon.gov.uk

24 Ebrill 2019

Annwyl Carys

Adolygiad o drefniadau Uwch-reolwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn

Cafodd eich e-byst dyddiedig 10 a 12 Ebrill, a'ch adroddiad eglurhaol a dogfennau ategol, a oedd yn cynnig ailstrwythuro trefniadau uwch-reolwyr, eu hystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd cworwm ar gyfer y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel mewn perthynas â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon ynghylch y cynnig
- c) Argymhell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl ystyried cais eich awdurdod, mae'r Panel wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd ar gyfer ailstrwythuro'r trefniadau ar gyfer uwch-reolwyr yn eich cyngor.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd